



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1493 (Cy.191)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Ffioedd) (Cymru) 2012**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru ym maes iechyd planhigion.

Mae'r ffioedd yn daladwy mewn perthynas ag arolygiadau penodedig a gweithrediadau eraill a gyflawnir yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau i amddiffyn rhag dwyn i mewn i'r Gymuned organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion, a rhag i'r organebau hynny ymledu o fewn y Gymuned (OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t.1).

Pennir y ffioedd am wiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion mewn perthynas â mewnfurion penodol o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o drydydd gwledydd (rheoliad 2 ac Atodlenni 1, 2 a 3), yn unol â'r gofyniad yn Erthygl 13d o Gyfarwyddeb 2000/29/EC.

Mae'r Rheoliadau yn cydgrynhai nifer o offerynnau blaenorol a oedd yn ymdrin ar wahân â ffioedd penodol ynglŷn ag iechyd planhigion; dirymir yr offerynnau blaenorol hynny (rheoliad 7). Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno unrhyw fathau newydd o ffioedd.

Mae lefelau'r ffioedd y darperir ar eu cyfer yn yr offeryn hwn yn rhan o symudiad fesul cam, dros gyfnod o dair blynedd, tuag at ffioedd sy'n adennill y gost lawn. Cynyddir y rhan fwyaf o'r ffioedd yn sylweddol: pennir cynnydd o 229% mewn ffioedd arolygu mewnfurio, 52% yn y ffioedd mewn perthynas â thatws hadyd, 160% mewn ffioedd trwyddedu, 184% yn y ffioedd am arolygu tatws sy'n tarddu o'r Aiff, a 55% yn y ffioedd am wasanaethau pasbortau planhigion. Darperir manylion pellach yn y Memorandwm Esboniadol.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1493 (W.191)

**PLANT HEALTH,
WALES**

**The Plant Health (Fees) (Wales)
Regulations 2012**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations, which apply in relation to Wales specify fees payable to the Welsh Ministers in the field of plant health.

The fees are payable in relation to specified inspections and other operations carried out pursuant to Council Directive 2000/29/EC on protective measures against the introduction into the Community of organisms harmful to plants or plant products and against their spread within the Community (OJ No L 169, 10.7.2000, p.1).

The fees for documentary, identity and plant health checks in relation to certain imports of plants, plant products and other objects from third countries (regulation 2 and Schedules 1, 2 and 3) are specified pursuant to the requirement in Article 13d of Directive 2000/29/EC.

The Regulations consolidate several previous instruments which dealt separately with particular fees in relation to plant health; those previous instruments are revoked (regulation 7). These Regulations do not introduce any new types of fee.

The fee levels provided for in this instrument form part of a phased move towards full cost recovery of fees over a period of three years. Most fees are substantially increased: import inspection fees by 229%, fees in relation to seed potatoes by 52%, licensing fees by 160%, fees for inspection of Egyptian potatoes by 184% and fees for plant passporting services by 55%. Further details are provided in the Explanatory Memorandum.

Paratowyd asesiadau rheoleiddiol o effaith yr offeryn hwn ar gostau busnes, mewn perthynas â phob un o'r pum math o ffioedd y mae'r offeryn hwn yn ymwneud â hwy, ac maent ar gael gan Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulatory impact assessments of the effect that this instrument will have on the costs of business, in relation to each of the five types of fees covered by this instrument, have been prepared and are available from the Department of Environment and Sustainable Development, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2012 Rhif 1493 (Cy.191)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Ffioedd) (Cymru) 2012**

Gwnaed 5 Mehefin 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 12 Mehefin 2012

Yn dod i rym 6 Gorffennaf 2012

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliad 7(a), (b) ac (c) drwy arfer pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliad 7(a), (b) ac (c), gyda chydysyniad y Trysorlys, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(3) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy.(4)

Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2012. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Gorffennaf 2012.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(1) Yn rhinwedd Erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010, O.S. 2010/2690.

(2) 1972 p.68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7).

(3) 1973 p.51. Diddymwyd is-adran (6) o adran 56 gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiaidau) 1977 (p.18).

(4) Yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llwyodraeth Cymru 2006 p.32.

2012 No. 1493 (W.191)

**PLANT HEALTH,
WALES**

**The Plant Health (Fees) (Wales)
Regulations 2012**

Made 5 June 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 12 June 2012

Coming into force 6 July 2012

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

The Welsh Ministers make regulation 7(a), (b) and (c) in exercise of powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972.

The Welsh Ministers make these Regulations, with the exception of regulation 7(a), (b) and (c), with the consent of the Treasury, in exercise of powers conferred by section 56(1) and (2) of the Finance Act 1973(3) and now vested in them.(4)

**Title, application, commencement and
interpretation**

1.—(1) The title of these Regulations is the Plant Health (Fees) (Wales) Regulations 2012. They apply in relation to Wales and come into force on 6 July 2012.

(2) In these Regulations—

(1) By virtue of Article 3 of the European Communities (Designation) (No.5) Order 2010, S.I. 2010/2690.

(2) 1972 c.68; section 2(2) was amended by the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51), section 27(1)(a), and the European Union (Amendment) Act 2008 (c.7), Part 1 of the Schedule.

(3) 1973 c.51. Subsection (6) of section 56 was repealed by the Statute Law (Repeals) Act 1977 (c.18).

(4) By virtue of section 59(5) of the Government of Wales Act 2006 c.32.

- (a) ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau i amddiffyn rhag dwyn i mewn i'r Gymuned organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion, a rhag i'r organebau hynny ymledu o fewn y Gymuned(1); a
- (b) ystyr "y GIP" ("*the PHO*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(2).

(3) Mae i'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac y defnyddir eu cyfystyron Saesneg yn y Gyfarwyddeb, yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag a roddir i'w cyfystyron Saesneg yn y Gyfarwyddeb.

Ffioedd arolygu mewnforio

2.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â llwythi o—

- (a) planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 1 a restrir yn Rhan B o Atodiad V i'r Gyfarwyddeb, a
- (b) hadau Solanaceae, pa un a restrir hwy ai peidio yn y Rhan honno,

a ddygir i mewn i Gymru o wlad neu diriogaeth ac eithrio un sydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd neu sy'n destun cytundeb a wnaed o dan erthygl 12(6) o'r GIP.

(2) Ar yr adeg y mewnforir llwyth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo, rhaid i'r mewnforiwr dalu i Weinidogion Cymru—

- (a) y ffi a bennir—
 - (i) yng ngholofn 3 o Atodlen 1 mewn perthynas â llwyth o blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno, ac eithrio llwyth o blanhigyn neu gynnyrch planhigion y mae paragraff (ii) o'r is-baragraff hwn yn gymwys iddo; neu
 - (ii) yng ngholofn 4 o Atodlen 2 mewn perthynas â llwyth o blanhigyn neu gynnyrch planhigion a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno ac sy'n tarddu o wlad a restrir yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno; a
- (b) y ffioedd a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 3 am wiriad dogfennol a gwiriad adnabod.

(3) Ond, pan gynhelir gwiriad iechyd planhigion ar lwyth y tu allan i oriau gwaith yn ystod y dydd, a hynny ar gais y mewnforiwr neu unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am y llwyth, y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (2)(a) mewn perthynas â'r llwyth hwnnw yw—

- (a) "the Directive" ("*y Gyfarwyddeb*") means Council Directive 2000/29/EC on protective measures against the introduction into the Community of organisms harmful to plants or plant products and against their spread within the Community(1); and
- (b) "the PHO" ("*y GIP*") means the Plant Health (Wales) Order 2006(2).

(3) Terms used in these Regulations which are also used in the Directive have the meaning they have in the Directive.

Import inspection fees

2.—(1) This regulation applies in relation to consignments of—

- (a) plants, plant products and other objects of a description specified in column 1 of Schedule 1 that are listed in Part B of Annex V to the Directive, and
- (b) seeds of Solanaceae whether or not listed in that Part,

that are introduced into Wales from a country or territory other than one within the European Union or are the subject of an agreement made under article 12(6) of the PHO.

(2) Upon import of a consignment to which this regulation applies, an importer must pay to the Welsh Ministers—

- (a) the fee specified—
 - (i) in column 3 of Schedule 1 in respect of a consignment of a plant, plant product or other object listed in column 1 of that Schedule, other than a consignment of a plant or plant product to which paragraph (ii) of this sub-paragraph applies, or
 - (ii) in column 4 of Schedule 2 in respect of a consignment of a plant or plant product listed in column 1 of that Schedule and originating from a country listed in column 3 of that Schedule; and
- (b) the fees specified in column 3 of Schedule 3 for a documentary check and an identity check.

(3) But where, at the request of an importer or any other person responsible for the consignment, a plant health check is carried out on a consignment outside daytime working hours, the fee payable under paragraph (2)(a) in respect of that consignment is—

(1) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2010/1/EU (OJ Rhif L 7, 12.1.2010, t.17).

(2) O.S. 2006/1643 (Cy.158).

(1) OJ No L 169, 10.7.2000, p.1, as last amended by Commission Directive 2010/1/EU (OJ No L 7, 12.1.2010, p.17).

(2) S.I. 2006/1643 (W.158).

- (a) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o Atodlen 1 os yw'r llwyth yn un y mae paragraff (2)(a)(i) yn gymwys iddo; neu
- (b) y ffi a bennir yng ngholofn 5 o Atodlen 2 os yw'r llwyth yn un y mae paragraff (2)(a)(ii) yn gymwys iddo.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "oriau gwaith yn ystod y dydd" ("*daytime working hours*") yw unrhyw amser rhwng yr oriau 8.30 a.m. a 5.00 p.m. ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1) yng Nghymru.

Tatws hadyd: ffioedd

3.—(1) Mae'r ffioedd a bennir yn Atodlen 4 yn daladwy mewn perthynas â'r swyddogaethau a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno, sy'n ymwneud â chais am—

- (a) ardystiad o datws hadyd yn unol â rheoliad 9 o'r Rheoliadau Tatws Hadyd;
- (b) awdurdodiad i farchnata tatws hadyd yn unol â rheoliad 8 o'r Rheoliadau hynny.

(2) Mae'r ffi sy'n daladwy mewn perthynas â swyddogaeth yn ddarostyngedig i unrhyw leiafswm ffi a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 4 mewn perthynas â'r swyddogaeth honno.

(3) Rhaid talu'r ffi mewn perthynas â swyddogaeth a bennir yn Atodlen 4 i Weinidogion Cymru.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y Rheoliadau Tatws Hadyd" ("*the Seed Potatoes Regulations*") yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006(2).

Ffioedd am drwyddedau iechyd planhigion

4.—(1) Mae'r ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yn ymwneud â thrwydded a ddisgrifir yn erthygl 40 neu 41 o'r GIP.

(2) Mewn perthynas â chais neu arolygiad o fath a ddisgrifir yng ngholofn 2 o Atodlen 5, rhaid i berson dalu i Weinidogion Cymru y ffi a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno mewn perthynas â'r math hwnnw o gais neu arolygiad.

Ffioedd am awdurdodi pasbortau planhigion

5.—(1) Rhaid talu'r ffi a bennir ym mharagraff (2) i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw arolygiad (gan gynnwys arolygiad o gofnodion busnes) a gyflawnir mewn cysylltiad ag—

- (a) cais am awdurdod; neu

- (a) the fee specified in column 4 of Schedule 1 if the consignment is a consignment to which paragraph (2)(a)(i) applies; or
- (b) the fee specified in column 5 of Schedule 2 if the consignment is a consignment to which paragraph (2)(a)(ii) applies.

(4) In this regulation "daytime working hours" ("*oriau gwaith yn ystod y dydd*") means any time between the hours of 8.30 a.m. and 5.00 p.m. on any day except a Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday under the Banking and Financial Dealings Act 1971(1) in Wales.

Seed potatoes: fees

3.—(1) The fees specified in Schedule 4 are payable in respect of the functions specified in column 1 of that Schedule, which relate to an application for—

- (a) certification of seed potatoes in accordance with regulation 9 of the Seed Potatoes Regulations;
- (b) an authorisation to market seed potatoes in accordance with regulation 8 of those Regulations.

(2) The fee payable in respect of a function is subject to any minimum fee specified in column 3 of Schedule 4 in relation to that function.

(3) The fee in respect of a function specified in Schedule 4 must be paid to the Welsh Ministers.

(4) In this regulation "the Seed Potatoes Regulations" ("*y Rheoliadau Tatws Hadyd*") means the Seed Potatoes (Wales) Regulations 2006(2).

Plant health licence fees

4.—(1) Fees payable under this regulation relate to a licence described in article 40 or 41 of the PHO.

(2) In respect of an application or inspection of a type described in column 2 of Schedule 5, a person must pay to the Welsh Ministers the fee specified in column 3 of that Schedule in relation to that type of application or inspection.

Plant passport authorisation fees

5.—(1) The fee specified in paragraph (2) must be paid to the Welsh Ministers in respect of an inspection (which may include an inspection of business records) carried out in connection with—

- (a) an application for an authority; or

(1) 1971 p.80; gweler adran 1 ac Atodlen 1.

(2) O.S. 2006/2929 (Cy.264).

(1) 1971 c.80; see section 1 and Schedule 1.

(2) S.I. 2006/2929 (W.264).

(b) sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw amodau y rhoddyd awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.

(2) Y ffi yw £31.50 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr (gan gynnwys yr amser a dreulir ar arolygu, ar deithio ac ar weinyddu cysylltiedig), yn ddarostyngedig i leiafswm ffi o £63.00 am bob ymweliad.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod i ddyroddi pasbortau planhigion, a roddir o dan erthygl 8 o Orchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006(1) neu erthygl 29 o'r GIP.

Tatws sy'n tarddu o'r Aiff: ffioedd

6.—(1) Pan fo arolygydd yn cymryd sampl o datws sy'n tarddu o'r Aiff, er mwyn canfod, at ddibenion paragraff 5 o'r Atodiad i'r Penderfyniad, a yw'r tatws hynny wedi eu heintio â *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al., rhaid i'r mewnoforiwr dalu i Weinidogion Cymru ffi o £87.80 mewn perthynas â phob lot y cymerir sampl ohoni.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y Penderfyniad" ("*the Decision*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/787/EU sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i weithredu mesurau argyfwng dros dro yn erbyn lledaenu *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al., mewn cysylltiad â'r Aiff(2).

Dirymiadau

7. Dirymir y canlynol—

- (a) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Trwyddedau) (Cymru a Lloegr) 1996(3), o ran Cymru yn unig;
- (b) rheoliad 6 o Reoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Aiff (Cymru) 2004(4);
- (c) Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2006(5);
- (ch) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Pasbortau Planhigion) (Cymru) 2007(6);
- (d) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2010(7); ac
- (dd) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) 2012(8).

(b) ensuring compliance with any conditions subject to which an authority was granted.

(2) The fee is £31.50 for each quarter of an hour or part of quarter of an hour (including time spent on an inspection, on travelling and on associated administration), subject to a minimum fee of £63.00 per visit.

(3) In this regulation "authority" ("*awdurdod*") means an authority to issue plant passports conferred under article 8 of the Plant Health (*Phytophthora ramorum*) (Wales) Order 2006(1) or article 29 of the PHO.

Potatoes originating in Egypt: fees

6.—(1) Where an inspector takes a sample of potatoes originating in Egypt in order to ascertain whether, for the purposes of paragraph 5 of the Annex to the Decision, those potatoes are infected with *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al., the importer must pay to the Welsh Ministers £87.80 in respect of each lot sampled.

(2) In this regulation "the Decision" ("*y Penderfyniad*") means Commission Implementing Decision 2011/787/EU authorising member States temporarily to take emergency measures against the dissemination of *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. as regards Egypt(2).

Revocations

7. The following are revoked—

- (a) the Plant Health (Licence Fees) (England and Wales) Regulations 1996(3), in relation to Wales only;
- (b) regulation 6 of the Potatoes Originating in Egypt (Wales) Regulations 2004(4);
- (c) the Seed Potatoes (Fees) (Wales) (No. 2) Regulations 2006(5);
- (d) the Plant Health (Plant Passport Fees) (Wales) Regulations 2007(6);
- (e) the Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) Regulations 2010(7); and
- (f) the Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2012(8).

(1) O.S. 2006/1344 (Cy.134).

(2) OJ Rhif L 319, 2.12.2011, t.112.

(3) O.S. 1996/26.

(4) O.S. 2004/2245 (Cy.209).

(5) O.S. 2006/2961 (Cy.267).

(6) O.S. 2007/1765 (Cy.154).

(7) O.S. 2010/2917 (Cy.242), a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/285 Cy.49).

(8) O.S. 2012/285 (Cy.49).

(1) S.I. 2006/1344 (W.134).

(2) OJ No L 319, 2.12.2011, p.112.

(3) S.I. 1996/26.

(4) S.I. 2004/2245 (W.209).

(5) S.I. 2006/2961 (W.267).

(6) S.I. 2007/1765 (W.154).

(7) S.I. 2010/2917 (W.242), amended by S.I. 2012/285 (W.49).

(8) S.I. 2012/285 (W.49).

John Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un
o Weinidogion Cymru

Minister for Environment and Sustainable
Development, one of the Welsh Ministers

5 Mehefin 2012

5 June 2012

ATODLEN 1

Rheoliad 2(1)(a), (2)(a)(i) a (3)(a)

Ffioedd Arolygu Mewnforio

<i>Colofn 1</i> <i>Planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Nifer</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)</i>	<i>Colofn 4</i> <i>Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)</i>
Torion, egin blanhigion (ac eithrio deunydd coedwigaeth atgenhedlol), planhigion ifanc mefus neu lysiau	hyd at 10,000 o ran nifer	46.98	70.47
	am bob 1,000 ychwanegol, neu ran o hynny	1.88, hyd at uchafswm o 375.84	2.81, hyd at uchafswm o 563.76
Llwyni, coed (ac eithrio coed Nadolig wedi'u torri), planhigion meithrinfa prenaidd eraill yn cynnwys deunydd coedwigaeth atgenhedlol (ac eithrio hadau)	hyd at 1,000 o ran nifer	46.98	70.47
	am bob 100 ychwanegol, neu ran o hynny	1.15, hyd at uchafswm o 375.84	1.73, hyd at uchafswm o 563.76
Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron (ac eithrio cloron tatws) a fwriedir ar gyfer eu plannu	hyd at 200 kg	46.98	70.47
	am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny	0.43, hyd at uchafswm o 375.84	0.64, hyd at uchafswm o 563.76
Hadau, meithrinia dau meinwe	hyd at 100 kg	20.13	30.20
	am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny	0.46, hyd at uchafswm o 375.84	0.69, hyd at uchafswm o 563.76
Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu, nas pennir yn unman arall yn yr Atodlen hon	hyd at 5,000 o ran nifer	46.98	70.47
	am bob 100 ychwanegol, neu ran o hynny	0.46, hyd at uchafswm o 375.84	0.69, hyd at uchafswm o 563.76
Blodau wedi'u torri	hyd at 20,000 o ran nifer	46.98	70.47
	am bob 1,000 ychwanegol, neu ran o hynny	0.36, hyd at uchafswm o 375.84	0.54, hyd at uchafswm o 563.76
Canghennau gyda deiliant, rhannau o gonifferau (ac eithrio coed Nadolig wedi'u torri)	hyd at 100 kg	46.98	70.47
	am bob 100 kg ychwanegol, neu ran o hynny	4.67, hyd at uchafswm o 375.84	7.01, hyd at uchafswm o 563.76

Coed Nadolig sydd wedi'u torri	hyd at 1,000 o ran nifer	46.98	70.47
	am bob 100 ychwanegol, neu ran o hynny	4.67, hyd at uchafswm o 375.84	7.01, hyd at uchafswm o 563.76
Dail planhigion, megis perlysiâu, sbeisys a llysiâu deiliog	hyd at 100 kg	46.98	70.47
	am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny	4.67, hyd at uchafswm o 375.84	7.01, hyd at uchafswm o 563.76
Ffrwythau, llysiâu (ac eithrio llysiâu deiliog)	hyd at 25,000 kg	46.98	70.47
	am bob 1,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny	1.88	2.81
Cloron tatws	hyd at 25,000 kg	140.94 (am bob lot)	211.41 (am bob lot)
	am bob 25,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	140.94 (am bob lot)	211.41 (am bob lot)
Pridd a chyfrwng tyfiant, rhisgl	hyd at 25,000 kg	46.98	70.47
	am bob 1,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny	1.88, hyd at uchafswm o 375.84	2.81, hyd at uchafswm o 563.76
Grawn	hyd at 25,000 kg	46.98	70.47
	am bob 1,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny	1.88, hyd at uchafswm o 1879.19	2.81, hyd at uchafswm o 2818.78
Planhigion eraill neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir yn unman arall yn yr Atodlen hon, ac eithrio coed fforestydd	am bob llwyth	46.98	70.47

ATODLEN 2

Rheoliad 2(2)(a)(ii) a (3)(b)

Ffioedd Arolygu Mewnforio: Cyfraddau Gostyngol

<i>Colofn 1</i> <i>Genws</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Nifer</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Gwlad tarddiad</i>	<i>Colofn 4</i> <i>Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)</i>	<i>Colofn 5</i> <i>Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)</i>
Blodau wedi'u torri				
<i>Dianthus</i>	hyd at 20,000 o ran nifer	Colombia	2.35	3.52
		Ecuador	4.70	7.05
		Kenya	2.35	3.52
		Twrci	11.74	17.62
	am bob 1,000 ychwanegol neu ran o hynny	Colombia	0.02, hyd at uchafswm o 18.79	0.03, hyd at uchafswm o 28.19
		Ecuador	0.04, hyd at uchafswm o 37.58	0.07, hyd at uchafswm o 56.38
		Kenya	0.02, hyd at uchafswm o 18.79	0.03, hyd at uchafswm o 28.19
		Twrci	0.10, hyd at uchafswm o 93.96	0.15, hyd at uchafswm o 140.94
<i>Rosa</i>	hyd at 20,000 o ran nifer	Colombia	1.41	2.11
		Ecuador	1.41	2.11
		Ethiopia	2.35	3.52
		Kenya	2.35	3.52
		Tanzania	4.70	7.05
		Uganda	11.74	17.62
		Zambia	11.74	17.62
	am bob 1,000 ychwanegol neu ran o hynny	Colombia	0.01, hyd at uchafswm o 11.28	0.01, hyd at uchafswm o 16.91
		Ecuador	0.01, hyd at uchafswm o 11.28	0.01, hyd at uchafswm o 16.91
		Ethiopia	0.02, hyd at uchafswm o 18.79	0.03, hyd at uchafswm o 28.19
		Kenya	0.02, hyd at uchafswm o 18.79	0.03, hyd at uchafswm o 28.19
		Tanzania	0.04, hyd at uchafswm o 37.58	0.07, hyd at uchafswm o 56.38

		Uganda	0.07, hyd at uchafswm o 93.96	0.10, hyd at uchafswm o 140.94	
		Zambia	0.07, hyd at uchafswm o 93.96	0.10, hyd at uchafswm o 140.94	
Canghennau gyda deiliant					
<i>Phoenix</i>	hyd at 100 kg	Costa Rica	16.44	24.66	
	am bob 100 kg ychwanegol neu ran o hynny	Costa Rica	1.63, hyd at uchafswm o 131.54	2.45, hyd at uchafswm o 197.32	
Ffrwythau					
<i>Citrus</i>	hyd at 25,000 kg	Yr Aifft	7.05	10.57	
		Israel	4.70	7.05	
		Mecsico	7.05	10.57	
		Moroco	2.35	3.52	
		Periw	11.74	17.62	
		Twrci	1.41	2.11	
		Uruguay	7.05	10.57	
		UDA	7.05	10.57	
	am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Yr Aifft	0.26	0.39	
		Israel	0.19	0.28	
		Mecsico	0.26	0.39	
		Moroco	0.07	0.10	
		Periw	0.47	0.70	
		Twrci	0.03	0.05	
		Uruguay	0.26	0.39	
		UDA	0.26	0.39	
	<i>Malus</i>	hyd at 25,000 kg	Ariannin	4.70	7.05
			Brasil	7.05	10.57
Chile			2.35	3.52	
Tsieina			23.49	35.23	
Seland Newydd			4.70	7.05	
De Affrica			2.35	3.52	
UDA			11.74	17.62	
am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny		Ariannin	0.19	0.28	
		Brasil	0.28	0.42	
		Chile	0.09	0.14	
		Tsieina	0.94	1.40	

		Seland Newydd	0.19	0.28
		De Affrica	0.09	0.14
		UDA	0.47	0.70
<i>Passiflora</i>	hyd at 25,000 kg	Colombia	4.70	7.05
		Kenya	4.70	7.05
		De Affrica	23.49	35.23
		Zimbabwe	16.44	24.66
	am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Colombia	0.16	0.25
		Kenya	0.16	0.25
		De Affrica	0.92	1.38
		Zimbabwe	0.63	0.94
<i>Prunus</i>	hyd at 25,000 kg	Ariannin	16.44	24.66
		Chile	4.70	7.05
		De Affrica	4.70	7.05
		Twrci	4.70	7.05
		UDA	4.70	7.05
	am bob 1000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Ariannin	0.63	0.94
		Chile	0.16	0.25
		De Affrica	0.16	0.25
		Twrci	0.16	0.25
		UDA	0.16	0.25
<i>Pyrus</i>	hyd at 25,000 kg	Ariannin	4.70	7.05
		Chile	11.74	17.62
		Tsieina	16.44	24.66
		De Affrica	4.70	7.05
	am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Ariannin	0.16	0.25
		Chile	0.47	0.70
		Tsieina	0.66	0.98
		De Affrica	0.16	0.25
Llysiau				
<i>Solanum melongena</i>	hyd at 25,000 kg	Twrci	4.70	7.05
	am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Twrci	0.16	0.25

ATODLEN 3

Rheoliad 2(2)(b)

Ffioedd Arolygu Mewnforio: Gwiriadau Dogfennol a Gwiriadau Adnabod

<i>Colofn 1</i> <i>Gwiriad</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Nifer</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi (£)</i>
Dogfennol	am bob llwyth	5.36
Adnabod	am bob llwyth hyd at faint llwyth lori, llwyth wagen reilffordd neu lwyth cynhwysydd o faint cymharol	5.36
	am bob llwyth sy'n fwy na'r maint uchod	10.71

ATODLEN 4

Rheoliad 3

Tatws Hadyd: Ffioedd

<i>Colofn 1</i> <i>Swyddogaeth</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Ffi⁽¹⁾ (£)</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Lleiafswm ffi (£)</i>
Arolygu cnydau sy'n tyfu a darparu labeli a seliau mewn perthynas â cheisiadau		
Ardystio fel tatws hadyd cyn-sylfaenol	122.57*	n/a
Ardystio fel tatws hadyd sylfaenol a ddsberthir fel:	super elite 1, super elite 2 neu super elite 3	122.57
	elite 1, elite 2 neu elite 3	122.57
	A	116.52
Ardystio fel tatws hadyd ardystiedig	52.96	105.93
Awdurdodiad i farchnata tatws hadyd	122.57*	n/a
Arolygu cloron a gynaeafwyd		
Hyd at ddau arolygiad	18.16	36.32
Trydydd arolygiad ac arolygiadau dilynol	122.57*	n/a

⁽¹⁾ Mae'r cyfraddau, a restrir yn y golofn hon ac yng ngholofn 3, sydd wedi eu marcio â seren yn gyfraddau fesul awr neu ran o awr, a'r cyfraddau nad ydynt wedi eu marcio felly yn gyfraddau fesul hanner hectar neu ran o hanner hectar.

ATODLEN 5

Rheoliad 4(2)

Ffioedd am Drwyddedau Iechyd Planhigion

<i>Colofn 1</i> <i>Eitem</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Math o gais neu arolygiad</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi (£)</i>
1	Cais am drwydded ac eithrio trwydded sy'n dod o fewn eitem 2 neu 3	781.27
2	Cais am drwydded mewn perthynas â phridd neu gyfrwng tyfu arall ar gyfer ei ddadansoddi	563.54
3	Cais am drwydded at ddibenion gwyddonol neu ddibenion treialu, sy'n ymwneud â 5 neu ragor o fathau o bethau	781.27, plws 30.74 am bob math o beth dros ben y 5
4	Cais am adnewyddu neu amrywio trwydded gyda newidiadau, pan fo asesiad gwyddonol neu dechnegol yn ofynnol	256.15
5	Cais am adnewyddu trwydded heb newidiadau, neu gais am adnewyddu neu amrywio trwydded gyda newidiadau bach yn unig, pan nad yw asesiad gwyddonol neu dechnegol yn ofynnol	30.74
6	Arolygu a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa) i fonitro cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau trwydded	42.06 am bob awr neu ran o awr

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

SCHEDULE 1

Regulation 2(1)(a), (2)(a)(i) and (3)(a)

Import Inspection Fees

<i>Column 1</i> <i>Plant, plant product</i> <i>or other object</i>	<i>Column 2</i> <i>Quantity</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee for each</i> <i>consignment (daytime</i> <i>working hours) (£)</i>	<i>Column 4</i> <i>Fee for each consignment</i> <i>(non-daytime working</i> <i>hours) (£)</i>
Cuttings, seedlings (except forestry reproductive material), young plants of strawberries or of vegetables	up to 10,000 in number	46.98	70.47
	each additional 1,000, or part thereof	1.88, up to a maximum of 375.84	2.81, up to a maximum of 563.76
Shrubs, trees (other than cut Christmas trees), other woody nursery plants including forest reproductive material (other than seed)	up to 1,000 in number	46.98	70.47
	each additional 100, or part thereof	1.15, up to a maximum of 375.84	1.73, up to a maximum of 563.76
Bulbs, corms, rhizomes, tubers, intended for planting (other than tubers of potatoes)	up to 200 kg	46.98	70.47
	each additional 10 kg, or part thereof	0.43, up to a maximum of 375.84	0.64, up to a maximum of 563.76
Seeds, tissue cultures	up to 100 kg	20.13	30.20
	each additional 10 kg, or part thereof	0.46, up to a maximum of 375.84	0.69, up to a maximum of 563.76
Other plants intended for planting, not specified elsewhere in this Schedule	up to 5,000 in number	46.98	70.47
	each additional 100, or part thereof	0.46, up to a maximum of 375.84	0.69, up to a maximum of 563.76
Cut flowers	up to 20,000 in number	46.98	70.47
	each additional 1,000, or part thereof	0.36, up to a maximum of 375.84	0.54, up to a maximum of 563.76
Branches with foliage, parts of conifers (other than cut Christmas trees)	up to 100 kg	46.98	70.47
	each additional 100 kg, or part thereof	4.67, up to a maximum of 375.84	7.01, up to a maximum of 563.76
Cut Christmas trees	up to 1,000 in number	46.98	70.47
	each additional 100, or part thereof	4.67, up to a maximum of 375.84	7.01, up to a maximum of 563.76

Leaves of plants, such as herbs, spices and leafy vegetables	up to 100 kg	46.98	70.47
	each additional 10 kg, or part thereof	4.67, up to a maximum of 375.84	7.01, up to a maximum of 563.76
Fruits, vegetables (other than leafy vegetables)	up to 25,000 kg	46.98	70.47
	each additional 1,000 kg, or part thereof	1.88	2.81
Tubers of potatoes	up to 25,000 kg	140.94 (for each lot)	211.41 (for each lot)
	each additional 25,000 kg, or part thereof	140.94 (for each lot)	211.41 (for each lot)
Soil and growing medium, bark	up to 25,000 kg	46.98	70.47
	each additional 1,000 kg, or part thereof	1.88, up to a maximum of 375.84	2.81, up to a maximum of 563.76
Grain	up to 25,000 kg	46.98	70.47
	each additional 1,000 kg, or part thereof	1.88, up to a maximum of 1879.19	2.81, up to a maximum of 2818.78
Other plants or plant products not specified elsewhere in this Schedule, except forest trees	each consignment	46.98	70.47

SCHEDULE 2

Regulation 2(2)(a)(ii) and (3)(b)

Import Inspection Fees: Reduced Rates

<i>Column 1</i> <i>Genus</i>	<i>Column 2</i> <i>Quantity</i>	<i>Column 3</i> <i>Country of origin</i>	<i>Column 4</i> <i>Fee for each consignment (daytime working hours) (£)</i>	<i>Column 5</i> <i>Fee for each consignment (non-daytime working hours) (£)</i>
Cut Flowers				
<i>Dianthus</i>	up to 20,000 in number	Colombia	2.35	3.52
		Ecuador	4.70	7.05
		Kenya	2.35	3.52
		Turkey	11.74	17.62
	each additional 1,000 or part thereof	Colombia	0.02, up to a maximum of 18.79	0.03, up to a maximum of 28.19
		Ecuador	0.04, up to a maximum of 37.58	0.07, up to a maximum of 56.38
		Kenya	0.02, up to a maximum of 18.79	0.03, up to a maximum of 28.19
		Turkey	0.10, up to a maximum of 93.96	0.15, up to a maximum of 140.94
<i>Rosa</i>	up to 20,000 in number	Colombia	1.41	2.11
		Ecuador	1.41	2.11
		Ethiopia	2.35	3.52
		Kenya	2.35	3.52
		Tanzania	4.70	7.05
		Uganda	11.74	17.62
		Zambia	11.74	17.62
	each additional 1,000 or part thereof	Colombia	0.01, up to a maximum of 11.28	0.01, up to a maximum of 16.91
		Ecuador	0.01, up to a maximum of 11.28	0.01, up to a maximum of 16.91
		Ethiopia	0.02, up to a maximum of 18.79	0.03, up to a maximum of 28.19
		Kenya	0.02, up to a maximum of 18.79	0.03, up to a maximum of 28.19
		Tanzania	0.04, up to a maximum of 37.58	0.07, up to a maximum of 56.38

		Uganda	0.07, up to a maximum of 93.96	0.10, up to a maximum of 140.94
		Zambia	0.07, up to a maximum of 93.96	0.10, up to a maximum of 140.94
Branches with foliage				
<i>Phoenix</i>	up to 100 kg	Costa Rica	16.44	24.66
	each additional 100 kg or part thereof	Costa Rica	1.63, up to a maximum of 131.54	2.45, up to a maximum of 197.32
Fruit				
<i>Citrus</i>	up to 25,000 kg	Egypt	7.05	10.57
		Israel	4.70	7.05
		Mexico	7.05	10.57
		Morocco	2.35	3.52
		Peru	11.74	17.62
		Turkey	1.41	2.11
		Uruguay	7.05	10.57
		USA	7.05	10.57
	each additional 1,000 kg or part thereof	Egypt	0.26	0.39
		Israel	0.19	0.28
		Mexico	0.26	0.39
		Morocco	0.07	0.10
		Peru	0.47	0.70
		Turkey	0.03	0.05
		Uruguay	0.26	0.39
		USA	0.26	0.39
<i>Malus</i>	up to 25,000 kg	Argentina	4.70	7.05
		Brazil	7.05	10.57
		Chile	2.35	3.52
		China	23.49	35.23
		New Zealand	4.70	7.05
		South Africa	2.35	3.52
		USA	11.74	17.62
	each additional 1,000 kg or part thereof	Argentina	0.19	0.28
		Brazil	0.28	0.42
		Chile	0.09	0.14
		China	0.94	1.40

		New Zealand	0.19	0.28
		South Africa	0.09	0.14
		USA	0.47	0.70
<i>Passiflora</i>	up to 25,000 kg	Colombia	4.70	7.05
		Kenya	4.70	7.05
		South Africa	23.49	35.23
		Zimbabwe	16.44	24.66
	each additional 1,000 kg or part thereof	Colombia	0.16	0.25
		Kenya	0.16	0.25
		South Africa	0.92	1.38
		Zimbabwe	0.63	0.94
<i>Prunus</i>	up to 25,000 kg	Argentina	16.44	24.66
		Chile	4.70	7.05
		South Africa	4.70	7.05
		Turkey	4.70	7.05
		USA	4.70	7.05
	each additional 1,000 kg or part thereof	Argentina	0.63	0.94
		Chile	0.16	0.25
		South Africa	0.16	0.25
		Turkey	0.16	0.25
		USA	0.16	0.25
<i>Pyrus</i>	up to 25,000 kg	Argentina	4.70	7.05
		Chile	11.74	17.62
		China	16.44	24.66
		South Africa	4.70	7.05
	each additional 1,000 kg or part thereof	Argentina	0.16	0.25
		Chile	0.47	0.70
		China	0.66	0.98
		South Africa	0.16	0.25
Vegetables				
<i>Solanum melongena</i>	up to 25,000 kg	Turkey	4.70	7.05
	each additional 1,000 kg or part thereof	Turkey	0.16	0.25

SCHEDULE 3

Regulation 2(2)(b)

Import Inspection Fees: Documentary and Identity Checks

<i>Column 1</i> <i>Check</i>	<i>Column 2</i> <i>Quantity</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee (£)</i>
Documentary	each consignment	5.36
Identity	each consignment up to the size of a truck load, a railway wagon load or the load of a container of comparable size	5.36
	each consignment bigger than the above size	10.71

SCHEDULE 4

Regulation 3

Seed Potatoes: Fees

<i>Column 1</i> <i>Function</i>	<i>Column 2</i> <i>Fee⁽¹⁾ (£)</i>	<i>Column 3</i> <i>Minimum fee (£)</i>
Inspection of growing crops and provision of labels and seals in respect of applications		
Certification as pre-basic seed potato	122.57*	n/a
Certification as basic seed potato, classified as:	super elite 1, super elite 2 or super elite 3	122.57
	elite 1, elite 2 or elite 3	122.57
	A	116.52
Certification as certified seed potato	52.96	105.93
Authorisation to market seed potatoes	122.57*	n/a
Inspection of harvested tubers		
Up to two inspections	18.16	36.32
Third and subsequent inspections	122.57*	n/a

⁽¹⁾ Of the rates listed in this column and in column 3, those that are marked with an asterisk are per hour or part of an hour, and those not so marked are per half-hectare or part of half-hectare.

SCHEDULE 5

Regulation 4(2)

Plant Health Licence Fees

<i>Column 1</i> <i>Item</i>	<i>Column 2</i> <i>Type of application or inspection</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee (£)</i>
1	Application for a licence other than a licence covered by item 2 or 3	781.27
2	Application for a licence in respect of soil or other growing medium for analysis	563.54
3	Application for a licence for scientific or trial purposes covering 5 or more types of article	781.27, plus 30.74 per type of article in excess of 5
4	Application for renewal or variation of a licence with changes requiring scientific or technical assessment	256.15
5	Application for renewal of a licence with no changes, or for renewal or variation of a licence with only minor changes requiring no scientific or technical assessment	30.74
6	Inspection and associated activities (including travelling time and office time) for monitoring compliance with licence terms and conditions	42.06 per hour or part of an hour

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1493 (Cy.191)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Ffioedd) (Cymru) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1493 (W.191)

**PLANT HEALTH,
WALES**

The Plant Health (Fees) (Wales)
Regulations 2012